

RHODDWDYD Y DRWYDDED UCHOD YN AMODOL AR YR AMODAU CANLYNOL

1. Rhaid sicrhau y cedwir y ceffylau yn iach ac yn heini yn gorfforol ym mhob ffordd ac, yn achos ceffyl a gedwir i'w hurio er mwyn ei farchogaeth, neu geffyl a gedwir i'w ddefnyddio i roi hyfforddiant marchogaeth, rhaid i'r ceffyl fod yn addas i wneud hynny.
2. Ni chaniateir hurio ceffyl i'w farchogaeth sy'n llai na thair oed, na chaseg feichiog nag unrhyw gaseg sydd wedi rhoi genedigaeth ers tri mis, na'i defnyddio, am dâl, i roi hyfforddiant neu ddangos i bobl sut i farchogaeth.
3. Rhaid i unrhyw offer marchogaeth a ddarperir ar gyfer ceffyl a gaiff ei hurio fod heb unrhyw nam gweledol sy'n debygol o achosi damwain neu ddiodefaint i'r ceffyl.
4. Rhaid i draed pob anifail gael eu trimio'n gywir ac os ydynt wedi'u pedoli, rhaid i'r pedolau ffitio'n iawn a rhaid iddynt fod mewn cyflwr da.
5. Wrth archwilio'r eiddo, os bydd swyddog awdurdodedig yn canfod ceffyl sydd angen sylw gan filfeddyg, ni chaniateir i'r ceffyl yna weithio nes bydd deilydd y drwydded wedi cael tystysgrif gan filfeddyg, gan dalu o'i boced/phoced ei hun, yn dweud bod y ceffyl ddigon iach i weithio, ac wedi cyflwyno'r dystysgrif i'r awdurdod lleol.
6. Ni chaniateir hurio ceffyl i'w farchogaeth nac i roi hyfforddiant marchogaeth heb oruchwyliaeth unigolyn cyfrifol dros 16 oed oni bai (ar gyfer ceffyl a gaiff ei hurio i'w farchogaeth) bod deilydd y drwydded yn fodlon bod yr unigolyn sy'n hurio'r ceffyl yn gallu marchogaeth heb oruchwyliaeth.
7. Yn achos ceffylau a gedwir mewn cae, rhaid sicrhau bod digon o borfa, cysgod, dŵr a bwydydd eraill ar gael iddynt tra byddant yn y cae.
8. Rhaid sicrhau bod digon o fwyd, diod a gwellt (ar wahân i geffylau a gedwir mewn cae) ar gael i'r ceffylau, a rhaid iddynt gael digon o ymarfer, gael eu gwastrodi, eu gorffwyso a rhaid ymweld â nhw yn rheolaidd.
9. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i atal a rheoli clefydau heintus rhag lleadaenu ymhlith y ceffylau a rhaid darparu a chynnal offer cymorth cyntaf a meddyginiaethau milfeddygol ar yr eiddo.
10. Rhaid i adeiladau'r sefydliad marchogaeth fod yn ddigon mawr ac yn addas i gadw'r anifeiliaid, a rhaid sicrhau eu bod yn gynnes a bod ganddynt gysgod sydd mewn cyflwr o lendid a hylendid. Rhaid cael mynediad cyfleus a diogel i'r stablau a'r bocsys. Rhaid i'r stablau fod ddigon mawr i alluogi'r anifail i orwedd i lawr a chodi yn ddidrafferth. Rhaid i'r bocsys fod ddigon mawr i'r anifail allu troi.
11. Rhaid i'r buarthau ddarparu digon o le ar gyfer pob anifail a gedwir yno.
12. Rhaid sicrhau bod digon o olau naturiol, fel nad oes angen defnyddio goleuadau trydan yn ystod y dydd.
13. Rhaid awyru'r eiddo, heb achosi drafftiau.
14. Rhaid i'r system draenio allu cael gwared ar hylif a ryddheir oddi wrth y ceffylau a chadw'r stablau'n sych.
15. Rhaid gallu storio a chael gwared ar wrtaith a gwellt budr.
16. Rhaid sicrhau bod digon o le i gadw bwyd, gwellt, offer stabl a chyfrwyau.
17. Rhaid i ddeilydd y drwydded sicrhau y cymerir y camau priodol i amddiffyn a rhyddhau'r ceffyl os bydd tân ac yn arbennig, bod enw, cyfeiriad a rhif ffôn deilydd y drwydded neu unigolyn cyfrifol arall yn cael eu dangos mewn man amlwg y tu allan i'r eiddo ac y dangosir cyfarwyddiadau ar gyfer rhyddhau'r ceffylau, os bydd tân, mewn man amlwg y tu allan i'r eiddo.
18. Ni ddylai neb o dan 16 oed fod yn gyfrifol am redeg y busnes ar unrhyw adeg.
19. Rhaid i ddeilydd y drwydded feddu ar bolisi yswiriant cyfredol sy'n ei h/yswiro yn erbyn atebolrwydd ar gyfer unrhyw anaf a gaiff unigolion sy'n hurio ceffyl i'w farchogaeth a'r rheiny sy'n defnyddio ceffyl wrth gael hyfforddiant marchogaeth, am dâl, ac sydd hefyd yn yswiro unigolion o'r fath rhag unrhyw atebolrwydd allai ddigwydd iddynt o ran anaf i unrhyw un a achosir gan, neu o ganlyniad i, hurio neu ddefnyddio ceffyl fel y soniwyd eisoes.
20. Rhaid i ddeilydd y drwydded gadw cofrestr o'r holl geffylau yn ei feddiant sydd o dan dair oed ac a gedwir ar yr eiddo fel arfer, fydd ar gael i'w harchwilio gan swyddog awdurdodedig ar unrhyw adeg resymol.